

CYFFES FFYDD

41. Am angau, a sefyllfa dynion ar ôl marw.

Angau ydyw ysgariad corff ac enaid oddi wrth ei gilydd dros amser (a). Er nad oedd dyn yn y cyflwr y crëwyd ef yn agored i farw, eto oblegid i ddyn bechu, y mae pob dyn yn agored i farw: " gosodwyd i ddynion farw unwaith " (b). Y mae y duwiol a'r annuwiol yn ddarostyngedig i farw, y naill fel y llall (c) ; ond y mae y duwiolion yn cael eu gwaredu trwy Grist oddi wrth niwed marwolaeth, ac angau yn cael ei droi yn elw iddynt; eithr i'r annuwiolion bydd yn golled anhraethadwy, ac yn fynediad i farwolaeth dragwyddol (d). Trwy farwolaeth dychwelir y cyrff i'r ddaear, ac a welant lygredigaeth; ond yr eneidiau sydd sylwedd ysbrydol, ni byddant feirw, ac ni hunant, ond dygir hwynt yn ddioed at orsedd Duw (e); yna ysbrydoedd perffaith y rhai cyfiawn a dderbynnir i ogoniant, ac yno, mewn mwynhad perffaith o Dduw yn Nghrist, disgwyliant brynedigaeth eu cyrff (f).

Ond eneidiau y rhai anghyfiawn a fwirir i uffern, lle y cedwir hwynt mewn poenau yn y tywyllwch eithaf, i farn y dydd mawr. Nid oes le i eneidiau wedi ymadael â'u cyrff ond y ddau hyn (g).

41. Of Death and the State of Men after Death.

Death consists in the separation of body and soul for a time (a). Though man in his original state was not subject to death, every man, in consequence of sin, is subject to death : “it is appointed unto men once to die” (b). The godly and the ungodly, the one as well as the other, are subject to death (c); but the godly are delivered by Christ from the hurt of death, and to them death is turned into gain, whereas to the wicked it will be an unutterable loss, and the entrance into death everlasting (d). At death the bodies return to the earth and see corruption; but the souls are a spiritual substance, and neither die nor sleep, but are brought at once before the throne of God (e). Then will the spirits of the righteous, made perfect, be received into glory, there to wait, in the full enjoyment of God in Christ, for the redemption of their bodies (f).

But the souls of the unrighteous are cast into hell, where they are reserved in torments and outer darkness for the judgment of the great day. There is no other place for souls departed from the body than these two (g).

(a) Gen. 3:19; Preg./Eccles. 12:7; Actau/Acts 13:36. Luke 23:4.

(b) Rhuf./Rom. 5:12, 6:23; Salm/Psa. 90:3; Heb. 9:27.

(c) Salm/Psa. 49:7-10; Preg./Eccles. 9:2.

(d) Phil. 1:21; Luc/Luke 2:29, 12:20, 16:22-23; 1 Cor. 15:5; Salm/Psa. 23:4.

(e) Preg./Eccles 12:7 gwêl/see (a); Actau/Acts 13:36, gwêl/see (a); Luc/Luke 23:43 gwêl/see (a); Heb. 9:27 gwêl/see (b).

(f) 2 Cor. 5:1 -4, 5:8; Phil. 1:23; Heb. 12:22-23; 2 Tim. 4:6-8;

Actau/Acts 3:21; Eff./Eph. 4:10; Rhuf./Rom. 8:23. (g) Luc/Luke 16:22-23 gwêl/see (d); Job. 18:18, 27:8; Actau/Acts 2:25; Jwd./Jude: 6,7; 1 Pedr/1 Peter 3:19.